Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

N1C

# Nodiadau i'r diffynnydd ar ymateb i'r ffurflen hawlio

## Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus - byddant yn eich helpu i benderfynu beth i'w wneud ynghylch yr hawliad hwn. Mae yna ragor o wybodaeth ar GOV.UK

Os cafwyd y ffurflen hawlio hon gyda manylion yr hawliad wedi eu nodi arni neu wedi eu hatodi, rhaid i chi ymateb o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y cyflwynwyd y ffurflen arnoch. Os ysgrifennwyd y geiriau 'manylion yr hawliad i ddilyn' ym mlwch manylion yr hawliad, ni ddylech ymateb tan fyddwch wedi cael manylion yr hawliad (dylai hynny ddigwydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl i chi gael y ffurflen hawlio).

Os anfonwyd yr hawliad drwy'r post, cymerir mai'r ail ddiwrnod busnes ar ôl postio yw'r dyddiad cyflwyno (gweler y marc post). Os danfonwyd y ffurflen hawlio i'ch cyfeiriad chi, neu y gadawyd hi yno, yr ail ddiwrnod busnes (gweler rheol 6.14 Rheolau Trefniadaeth Sifil) ar ôl iddi gael ei danfon fydd y diwrnod cyflwyno tybiedig.

Cewch un ai:

- dalu'r cyfanswm h.y. y swm a hawlir, ffi'r llys, a chostau cyfreithiwr (os oes rhai)
- addef bod y cyfan neu ran o'r hawliad yn ddyledus gennych a gofyn am amser i dalu, neu
- gwrthwynebu'r hawliad
- Os na fyddwch yn ymateb, gellir cofnodi dyfarniad yn eich erbyn.
- Mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych beth i'w wneud.
- Bydd y pecyn ymateb yn dweud wrthych pa ffurflenni i'w defnyddio ar gyfer eich ymateb. Bydd y pecyn hwnnw'n cynnwys manylion yr hawliad, os cyflwynir y rheini ar ôl y ffurflen hawlio.

Gall staff y llys eich helpu i lenwi'r ffurflenni ymateb a rhoi gwybod i chi am drefniadau'r llys, ond ni allant roi cyngor cyfreithiol i chi. Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol, er enghraifft ynghylch y tebygolrwydd o wrthwynebu'r hawliad yn llwyddiannus, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.

**Cofrestru dyfarniadau**

Os bydd yr hawliad hwn yn arwain at ddyfarniad yn eich erbyn, yna cofnodir y manylion ar gofrestr gyhoeddus, sef y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion


©Hawlfraint y Goron 2024

a Dirwyon. Byddant wedyn yn cael eu trosglwyddo i asiantaethau archwilio credyd a fydd, yn eu tro, yn eu hanfon at roddwyr credyd ac eraill a fydd yn ceisio gwybodaeth ynghylch eich sefyllfa ariannol. **Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael credyd.** Gellir cael rhestr o asiantaethau archwilio credyd gan Registry Trust Ltd, 173/175 Cleveland Street, Llundain W1T 6QR.

**Costau a llog**

Gellir ychwanegu costau a llog ychwanegol at y swm a hawlir ar dudalen flaen y ffurflen hawlio, os cofnodir dyfarniad yn eich erbyn. Mewn llys sirol, os gwneir dyfarniad am £5,000 neu ragor, neu os oes a wnelo'r dyfarniad â dyled sy'n denu llog cytundebol neu log statudol am hwyr-daliad, mae'n bosib y bydd gan yr hawlydd hawl i log pellach.

## Eich ymateb a beth fydd yn digwydd nesaf

**Sut i dalu**

**Peidiwch â dod ag unrhyw daliadau i'r llys** – ni fyddant yn cael eu derbyn.

Wrth wneud taliadau i'r hawlydd, dyfynnwch gyfeirnod yr hawlydd (os oes un) a rhif yr hawliad.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cofnodion ac y gallwch roi cyfrif am unrhyw daliadau a wneir. Mae'n bosib y bydd angen prawf os bydd unrhyw anghytundeb. Nid yw'n ddiogel i anfon arian drwy'r post heb ei gofrestru.

**Addef yr hawliad**

Hawliad am swm penodol

**Os ydych yn addef y cyfan o'r hawliad,** ewch â'r arian neu anfonwch yr arian, gan gynnwys ffi'r llys, unrhyw log a chostau, at yr hawlydd i'r cyfeiriad ar gyfer anfon taliadau a nodir ar y ffurflen hawlio, o fewn 14 diwrnod.

**Os ydych yn addef y cyfan o'r hawliad ac yn gofyn am amser i dalu,** llenwch ffurflen **N9A** a'i hanfon at yr hawlydd i'r cyfeiriad ar gyfer anfon taliadau a nodir ar y ffurflen hawlio, o fewn 14 diwrnod. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich cynnig ynglŷn â thalu ai peidio. Os derbynnir eich cynnig, gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn, ac anfonir gorchymyn i dalu atoch. Os na dderbynnir eich cynnig, bydd y llys yn penderfynu sut y dylech dalu.

**Os ydych yn addef rhan o'r hawliad yn unig,** llenwch ffurflen **N9A** a ffurflen **N9B** (gweler 'Gwrthwynebu'r Hawliad' drosodd) a'u hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich addefiad rhannol ai peidio. Os derbynnir ef, gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn, a bydd y llys yn anfon gorchymyn i dalu atoch. Os na dderbynnir eich addefiad rhannol, bydd yr achos yn mynd rhagddo fel hawliad a amddiffynnir.

Hawliad am swm amhenodol

**Os ydych yn addef atebolrwydd am yr hawliad cyfan, ond nad ydych yn gwneud cynnig i fodloni'r hawliad,** llenwch ffurflen **N9C** a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Anfonir copi at yr hawlydd, a gall yntau ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am swm sydd i'w benderfynu gan y llys, a chostau. Bydd y llys yn cofnodi dyfarniad ac yn cyfeirio ffeil y llys at farnwr am gyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r achos. Anfonir copi o orchymyn y llys atoch chi ac at yr hawlydd.

**Os ydych yn addef atebolrwydd am yr hawliad ac yn cynnig swm o arian i fodloni'r hawliad,** llenwch ffurflen **N9C** a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Anfonir copi at yr hawlydd a gofynnir iddynt a yw'r cynnig yn dderbyniol. Rhaid

i'r hawlydd ymateb i'r llys o fewn 14 diwrnod ac anfon copi atoch chi. Os na cheir ymateb ganddynt, bydd yr hawliad yn cael ei atal. Os **derbynnir** y swm a gynigir gennych –

- gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am y swm hwnnw.
- os ydych wedi gofyn am amser i dalu ac os na dderbyniwyd hynny gan yr hawlydd, y llys fydd yn penderfynu ar y gyfradd dalu.

Os **na dderbynnir** eich cynnig i fodloni'r hawliad -

- gall yr hawlydd ofyn i'r llys gofnodi dyfarniad yn eich erbyn am swm i'w benderfynu gan y llys, a chostau; a
- bydd y llys yn cofnodi dyfarniad ac yn cyfeirio ffeil y llys at farnwr am gyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r achos. Anfonir copi o orchymyn y llys atoch chi ac at yr hawlydd.

**Gwrthwynebu'r hawliad**

**Os ydych yn cael eich siwio fel unigolyn am swm penodol o arian a chithau'n gwrthwynebu'r hawliad,** gellir trosglwyddo'r hawliad i lys lleol, h.y. y llys agosaf at y man lle'r ydych yn byw neu'n cynnal eich busnes, os yw'n llys gwahanol i'r un lle cychwynnwyd yr hawliad.

**Os ydych angen mwy na 14 diwrnod i baratoi eich amddiffyniad neu i herio awdurdodaeth y llys i gynnal yr achos,** llenwch y ffurflen Cydnabyddiad Cyflwyno a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Bydd hynny yn rhoi 28 diwrnod, o ddyddiad cyflwyno manylion yr hawliad, i chi ffeilio eich amddiffyniad neu wneud cais i herio awdurdodaeth y llys. Bydd y llys yn rhoi gwybod i'r hawlydd ei fod wedi cael eich Cydnabyddiad Cyflwyno.

**Os bydd yr achos yn mynd rhagddo fel hawliad a amddiffynnir,** fe anfonir Holiadur Cyfarwyddiadau atoch chi ac at yr hawlydd. Dywedir wrthych erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid ei ddychwelyd i'r llys. Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen honno yn helpu barnwr i benderfynu a ddylid delio â'ch achos yn y trac hawliadau bychain, y trac cyflym ynteu'r amldrac. Wedi i farnwr ystyried yr holiaduron wedi'u llenwi, anfonir rhybudd dyrannu atoch yn nodi penderfyniad y barnwr. Bydd y rhybudd hwnnw'n dweud wrthych i ba drac y dyrannwyd yr hawliad, a beth fydd yn rhaid i chi ei wneud i baratoi at y gwrandawiad neu'r treial. Os cafodd yr hawliad ei ddyrannu i'r trac hawliadau bychain, bydd angen i chi a'r hawlydd fynychu apwyntiad cyfryngu. Bydd y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain, sy'n rhan o GLlTEF yn trefnu hwn i chi. Os gwneir cytundeb ar ddiwedd y sesiwn gyfryngu, bydd yr achos wedi'i setlo. Os na wneir cytundeb ar ddiwedd y sesiwn gyfryngu, yna fe gynhelir gwrandawiad neu dreial. Os na fyddwch yn mynychu'r apwyntiad cyfryngu, efallai y bydd y barnwr yn eich cosbi. Gallai hyn gynnwys gorchymyn eich bod yn talu costau, neu'n gwneud dyfarniad o blaid yr hawlydd yn awtomatig. **Mae yna ragor o wybodaeth am y traciau gwahanol ar-lein yn GOV.UK.**

**Hawliad am swm penodol**

**Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r cyfan o'r swm a hawlir neu'n dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (sef gwrth-hawliad),** llenwch ffurflen **N9B** a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod.

**Os ydych yn addef rhan o'r hawliad,** llenwch y ffurflen Amddiffyn **N9B a hefyd** y ffurflen Addefiad **N9A,** a'u hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Bydd yr hawlydd yn penderfynu a fydd yn derbyn eich addefiad rhannol i fodloni'r hawliad ai peidio (gweler o dan 'Addef yr Hawliad - swm penodol'). Os na fydd yr hawlydd yn derbyn y swm a addefir gennych, bydd yr achos yn mynd rhagddo fel hawliad a amddiffynnir.

**Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad oherwydd eich bod eisoes wedi ei dalu,** llenwch ffurflen **N9B** a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod. Bydd yn rhaid i'r hawlydd benderfynu a yw am barhau â'r hawliad ynteu ei dynnu'n ôl, gan roi gwybod i'r llys ac i chi o fewn 28 diwrnod. Os yw'r hawlydd yn dymuno parhau, bydd yr achos yn mynd rhagddo fel hawliad a amddiffynnir.

**Hawliad am swm amhenodol neu ddychwelyd nwyddau neu hawliadau anariannol**

Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad neu'n dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (gwrth-hawliad), llenwch ffurflen **N9D** a'i hanfon i'r llys o fewn 14 diwrnod.

**Hawliadau am anafiadau personol**

**Os gwneir hawliad am anafiadau personol ac os yw'r hawlydd wedi atodi adroddiad meddygol i fanylion yr hawliad, dylech ddatgan yn eich amddiffyniad:**

- a ydych yn cytuno â'r adroddiad **neu**
- a ydych yn gwrthwynebu'r cyfan neu ran o'r adroddiad, **gan** roi eich rhesymau dros wneud hynny, **neu**
- nad ydych yn cytuno â'r adroddiad nac yn ei wrthwynebu **neu** na wyddoch ddim am yr adroddiad.

Os ydych wedi cael adroddiad meddygol eich hunan, dylech ei atodi i'ch amddiffyniad.

**Os gwneir hawliad am anafiadau personol ac os yw'r hawlydd wedi atodi atodlen o dreuliau a cholledion o'r gorffennol ac i'r dyfodol, rhaid i'ch amddiffyniad ddatgan pa eitemau:**

- yr ydych yn cytuno â hwy **neu**
- yr ydych yn eu gwrthwynebu, **gan** ddarparu ffigurau eraill yn eu lle os yn briodol **neu**
- nad ydych yn cytuno â hwy nac yn eu gwrthwynebu, neu na wyddoch ddim amdanynt

**Y cyfeiriad lle gellir anfon rhybuddion**

Rhaid i hwn fod yn gyfeiriad busnes eich cyfreithiwr neu Gyfreithiwr Ewropeaidd, neu eich cyfeiriad preswyl neu gyfeiriad busnes eich hunan yn y DU neu unrhyw wladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Datganiad gwirionedd**

Rhaid i chi, eich cyfreithiwr neu'ch cyfaill cyfreitha lofnodi hwn, fel sy'n briodol.

Os yw'r diffynnydd yn **gwmni cofrestredig neu'n gorfforaeth**, rhaid i'r ymateb gael ei lofnodi gan naill ai gyfarwyddwr, trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall yn y cwmni, **neu** (yn achos corfforaeth) gan y maer, y cadeirydd, y llywydd neu glerc y dref.